# Cofnodion cyfarfod rhif 95 Pwyllgor Cynghori Cymru
# Cyfarfod hybrid ar 26 Tachwedd 2024

**Yn bresenol**

| | |
|---|---|
| Aled Eirug | Cadeirydd |
| Amanda Rees | Aelod |
| Geraint Strello | Aelod |

**Hefyd yn bresenol**

| | |
|---|---|
| Ruth McElroy | Aelod ar ran Cymru o’r Bwrdd Cynnwys |
| Clive Jones | Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom |
| Rachel Burr | Aelod ar ran Cymru, o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu |
| Philip Henfrey | Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru |
| Elinor Williams | Pennaeth Materion Rheoleiddio, Cymru, Ofcom |
| Meleri Evans | Rheolwr Materion Rheoleiddio, Cymru, Ofcom |
| Ella Breeze | Gweinyddwr,Ofcom Cymru |
| Rhys Llewelyn | Uwch Reolwr y Gymraeg, Ofcom Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Angharad Evans | Aelod |
| Karen Lewis | Aelod |

| **Eitemau ar yr agenda** |
|---|
| **Cyflwyniad Allanol gan Openreach**<br><br>Rhoddodd Martin Williams, Cyfarwyddwr Partneriaethau y wybodaeth ddiweddaraf am y defnydd o ffeibr llawn ledled Cymru. Roedd y cyflwyniad yn adrodd ar lwyddiant cynllun Talebau Gigabit Llywodraeth y DU yn Llanbrynmair a nododd yr angen i godi ymwybyddiaeth o'r ardaloedd eraill ledled Cymru a allai elwa o'r cynllun. Awgrymodd aelod gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cynlluniau trwy eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. Gofynnodd aelod arall am y cynlluniau diffodd copr a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar ardaloedd anghysbell. |
| **1. Cyflwyniad**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd mynychwyr i 95fed Cyfarfod Pwyllgor Cynghori Cymru. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Angharad Evans a Karen Lewis. |
| **2. Diweddaru datganiad a gwrthdaro buddiannau**<br><br>Dywedodd aelod ei bod hi bellach yn Gadeirydd ar Film Cymru. |
| **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2024 a materion sy'n codi**<br><br>Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2024 wedi'u rhannu gyda’r Aelodau yn flaenorol.<br><br>Roedd gan aelod rai newidiadau awgrymedig ar gyfer y cofnodion a byddai'n eu darparu i'r Gweinyddwr trwy e-bost. Yn amodol ar y gwelliannau hynny, cymeradwywyd y cofnodion. |
| **4. Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar** |

| Eitemau ar yr agenda |
|---|
| Rhoddodd y cadeirydd ddiweddariad llafar i'r pwyllgor. Nododd yr Aelodau ei fod wedi cwrdd â chadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori ar gyfer Gogledd Iwerddon a'r Alban.<br><br>Byddai'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu yn cynnal ei gyfarfod cyntaf y tu allan o Lundain ym mis Chwefror yng Nghymru, yn swyddfa Ofcom yng Nghaerdydd ar y 12-13eg o Chwefror a bydd aelodau Panel Cynghori Cymru'n cael eu gwahodd i ymgysylltu â'r Panel. |
| **5. Diweddariad: Aelod o Fwrdd Ofcom dros Gymru**<br><br>Roedd yr Aelod o Fwrdd Cynnwys Cymru wedi rhannu'r papur diweddaru yn flaenorol.<br><br>Trafododd aelodau'r Panel Cyngori Cymru sefyllfa'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru a nodwyd pwysigrwydd y Ddeddf Cyfryngau newydd. Nodwyd bod YouTube a Netflix yn bwrw ymlaen gyda chynhyrchu ond efallai nad oedd yn ddigon i lenwi'r bwlch yn amserlenni darlledu cyhoeddus.<br><br>Ailadroddodd aelod bwysigrwydd hyrwyddo cynhyrchu yng Nghymru ac bod angen gwneud achos cryf.<br><br>Yn y drafodaeth codwyd y dirywiad mewn cynhyrchu a'r mater o sut y byddai'n effeithio ar ddemograffeg benodol, rhai yn fwy nag eraill. |
| **6. Diweddariad: Datblygiadau Diweddar Cymru**<br><br>Roedd papur diweddaru wedi'i rannu ag aelodau. Cafwyd trafodaeth am eitemau allweddol.<br><br>**Adolygiad Mynediad i Delathrebu**<br><br>Nodwyd bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud mai eu ffocws oedd sicrhau bod rheoleiddio yn parhau i weithio'n dda yn Ardal 3.<br><br>**Ogi**<br><br>Roedd y darparwr rhyngrwyd yn cefnogi lansio gwasanaeth Cymraeg pwrpasol wedi'i gynnwys yn y feddalwedd wi-fi Eero ddiweddaraf, gan wella'r profiad band eang i ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith ym mhobman.<br><br>**Rhwydwaith Gwledig a Rennir**<br><br>Uwchraddiwyd saith safle symudol 4G ledled Cymru fel rhan o'r fenter Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Roedd yr uwchraddiad yn cefnogi cenhadaeth Llywodraeth y DU i chwalu rhwystrau i gyfleoedd a hybutwf economaidd.<br><br>**Vodafone/ Three – uno arfaethedig**<br><br>Nodwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer penderfyniad y CMA am yr uno oedd 7fed o Ragfyr 2024.<br><br>**S4C**<br><br>Nodwyd penderfyniad safon darlledu yn ymwneud â Can i Gymru S4C fel nodyn atgoffa o ddyletswyddau rheoleiddio Ofcom mewn perthynas ag S4C**.**<br><br>Nododd yr Aelodau fod Geraint Evans wedi'i benodi yn Brif Weithredwr o fis Ionawr 2025. |

| **Eitemau ar yr agenda** |
|---|
| Roedd amlygrwydd rhaglenni/cynnwys S4C ar iPlayer/ ITV X a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar y Gymraeg yn parhau i fod yn faes o ddiddordeb a thrafodaeth. |
| **7. Diweddariad: Polisi Cyhoeddus**<br><br>Nododd y Pwyllgor fod y tîm Polisi Cyhoeddus yn parhau i weithio ar feithrin perthnasoedd â Llywodraeth y DU ac i ymgysylltu ag ASau newydd, ar wahanol faterion ar draws cylch gwaith Ofcom, gan gynnwys polisi Diogelwch Ar-lein. Trafodwyd penodi aelodau pwyllgor dethol newydd DCMS a DSIT, a nodwyd y byddai siaradwr Cymraeg yn eu plith.<br><br>Trafododd y pwyllgor ydiweddariad ar y Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN) a sut ar ôl adolygiad data ychwanegol, roedd Three wedi cyflawni eu rhwymedigaeth i ddarparu sylw ledled y DU.<br><br>Cafodd y newyddion am benodiad Natalie Black yn Gyfarwyddwr Grŵp Rhwydweithiau a Chyfathrebu yng nghanol mis Tachwedd groeso mawr gan y pwyllgor. |
| **8. Adolygiad o'r Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM)**<br><br>Nodwyd bod tîm yr Adolygiad PSM wedi ymuno â chydweithwyr yng Nghaerdydd ar gyfer cyfres o gyfarfodydd effeithiol gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru. Diolchodd yr Aelodau i Elinor Williams am drefnu'r sesiynau.<br><br>Cododd aelod bryder bod cynnwys Cymraeg yn cael ei golli ar lwyfannau ar-lein oherwydd algorithmau a'r effaith a gafodd y rhain. Awgrymwyd bod angen i'r chwaraewyr allweddol gymryd rhan mewn trafodaeth am y mater hwn.<br><br>**Camau Gweithredu:**Maes o law, byddai digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei gynnal i ganiatáu i aelodau gyfrannu at ymgynghoriad rhagolwg Adolygiad PSM Ofcom sydd i'w gyhoeddi dechrau’r haf. Gofynnodd yr aelodau i’r tîm i fynychu cyfarfod mis Mawrth gyda diweddariad pellach.<br><br>Byddai ystyriaeth yn cael ei roi i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig Prif Weithredwr newydd S4C. |
| **9. Diweddariad - Aelod Panel Defnyddwyr Cyfathrebu Cymru**<br><br>Darparodd aelod y Panel bapur diweddaru i'r pwyllgor yn nodi eu blaenoriaethau ar gyfer 2024/25. Roedd y blaenoriaethau hyn yn cynnwys Cysylltedd, Fforddiadwyedd, Hygyrchedd, ac Ymddiriedaeth a Dibynadwyedd. Ymhlith y materion o ddiddordeb yn ystod y cyfarfod roedd Dyfodol Cysylltedd Di-wifr a darparu cyllid i gefnogi defnyddwyr sydd angen cymorth ychwanegol. Roedd y pwyllgor hefyd yn awyddus i ddysgu mwy am y cynlluniau i sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau yn cynnal fforddiadwyedd i ddefnyddwyr.<br><br>Pryder i'r Panel oedd yr anhawster o gysylltu ardaloedd anghysbell Cymru. Mewn perthynas ag Openreach, nodwyd mai Llanbrynmair oedd yr ardal gyfnewid ffôn gyntaf yn y DU i gael ffeibr llawn 100%. |
| **10. Diweddariad: Aelod o Fwrdd Cynnwys Cymru**<br><br>Adroddodd Ruth McElroy ar drafodaethau diweddar y Bwrdd Cynnwys. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd yr Adolygiad PSM ac awgrymwyd bod angen i S4C fod yn llysgennad |

| Eitemau ar yr agenda |
|---|
| iddo. Mynegodd ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn unrhyw gyfarfod yn y dyfodol gydag S4C i drafod PSB. |
| **11. Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau sydd ar ddod**<br><br>Maes o law, byddai'r Pwyllgor yn ymgysylltu â nifer o ymgynghoriadau ac adroddiadau Ofcom, gan gynnwys yr ymgynghoriad sydd ar ddod ar y gwasanaeth Post, adroddiad ymchwil blynyddol y Genedl Ar-lein, adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC ac adroddiad ymchwil blynyddol y Gwledydd Cysylltiedig. |
| **12. Data cwynion ar gyfer Cymru**<br><br>Nodwyd yr adroddiad ond ni chodwyd unrhyw faterion. |
| **Unrhyw Fater Arall ac eitemau agenda yn y dyfodol**<br><br>Dim.<br><br>Nododd yr aelodau fod dyddiadau cyfarfodydd Pwyllgor Cynghori Cymru 2025 wedi'u cadarnhau fel a ganlyn:<br><br>Dydd Iau 6 Mawrth<br><br>Dydd Mawrth 10 Mehefin<br><br>Dydd Mercher 1 Hydref<br><br>Dydd Mawrth 9 Rhagfyr |